# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**The Old Vicarage**

**Pen-y-bont ar Ogwr**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

23/09/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# The Old Vicarage

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Values in Care Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 4 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 14.3.2023 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae'r bobl a'u perthnasau yn hynod fodlon ar safon y gofal a ddarperir yn The Old Vicarage. Mae'r cymorth yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac mae'r bobl neu eu heiriolwyr yn cael eu hannog i gyfrannu at y penderfyniadau a wneir am eu cynllun personol a'u bywyd bob dydd. Caiff y bobl eu cefnogi gan dîm ymroddedig o weithwyr gofal profiadol sydd wedi'u hyfforddi'n dda, dirprwy, a rheolwr cofrestredig. Mae'r holl weithwyr gofal yn wybodus iawn ynghylch anghenion y bobl a gefnogir ganddynt. Gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn teimlo'n hyderus ac yn cael eu cefnogi yn eu rolau. Caiff y bobl eu cefnogi i ddilyn arferion sy'n bwysig iddynt gan gynnwys mynd allan i'r gymuned yn rheolaidd. Gwelsom fod y gweithwyr gofal yn cyfrannu at lesiant y bobl drwy ryngweithio'n gadarnhaol ac yn gefnogol â nhw. Mae gweithdrefnau a chynlluniau ar waith i gynnal a chadw'r amgylchedd ac i sicrhau gwaith adnewyddu parhaus o fewn yr eiddo. Mae'r gwasanaeth yn lân ac yn daclus, a chaiff diogelwch y bobl ei hyrwyddo. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd ac mae trefniadau llywodraethu da ar waith.

## Llesiant

Caiff y bobl eu cefnogi i gynnal eu hiechyd a'u llesiant. Mae gan y gweithwyr gofal gydberthnasau cadarnhaol â'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth, ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o anghenion gofal a chymorth y bobl. Mae'r gweithwyr gofal yn gallu adnabod newidiadau o ran ymddangosiad ac ymddygiad y bobl ac maent yn cymryd camau priodol. Mae'r gwasanaeth yn cydgysylltu â gweithwyr iechyd proffesiynol er mwyn rhoi gwybod iddynt am unrhyw bryderon ac mae'n dilyn unrhyw ganllawiau a roddir. Mae'r cynlluniau personol yn nodi unrhyw ymyriadau sydd eu hangen. Caiff meddyginiaeth ei rhoi yn unol ag argymhellion y rhagnodwr.

Mae'r bobl yn cael eu hannog i gael rheolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd a chynigir dewisiadau dyddiol iddynt. Mae cyfarfodydd preswylwyr a sgyrsiau, drwy amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu, yn rhoi cyfle i'r bobl rannu eu barn ar y gwasanaeth y maent yn ei gael. Mae amrywiaeth o weithgareddau ar gael i'r bobl, sy'n bodloni eu dewisiadau unigol. Caiff y bobl ddewis o fwyd maethlon ac mae ardaloedd cymunedol ar gael sy'n rhoi dewis i'r bobl ar ble yr hoffent dreulio eu hamser.

Mae'r bobl yn cael eu diogelu rhag niwed ac esgeulustod. Mae gan y darparwr bolisïau a gweithdrefnau cadarn ar waith i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei redeg yn ddiogel, ac maent yn cael eu hadolygu a'u diweddaru yn ôl yr angen. Mae'r gweithwyr gofal wedi cwblhau'r hyfforddiant diogelu gorfodol diweddaraf ac yn ymwybodol o'r gweithdrefnau i'w dilyn os bydd ganddynt unrhyw bryderon. Mae gweithdrefnau da ar waith er mwyn cynnal yr adeilad, ac mae trefniadau diogelwch ar waith i sicrhau bod y bobl yn ddiogel. Mae'r trefniadau llywodraethu yn galluogi'r rheolwyr i oruchwylio digwyddiadau, damweiniau a materion diogelu.

Mae'r amgylchedd yn addas ar gyfer anghenion y bobl ac yn helpu i gefnogi eu llesiant. Mae'r cartref mewn cyflwr da, yn lân ac yn gyfforddus. Mae'r ardaloedd cymunedol yn groesawgar ac yn gartrefol. Mae unigolyn cynnal a chadw dynodedig sy'n gyfrifol am gynnal a chadw'r cartref o ddydd i ddydd. Mae'n cwblhau gwiriadau rheolaidd o'r amgylchedd er mwyn sicrhau bod y cartref, ei gyfleusterau a'r cyfarpar yn ddiogel i'w defnyddio.

## Gofal a Chymorth

Mae'r cynlluniau personol rhagorol yn nodi anghenion gofal a chymorth y bobl, ac yn amlygu unrhyw risgiau i iechyd a llesiant y person. Gwnaethom archwilio nifer o gynlluniau personol a chanfod eu bod yn canolbwyntio llawer ar ganlyniadau ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae hyn yn golygu bod y wybodaeth a gofnodir ynddynt yn benodol i anghenion gofal a chymorth y person. Mae'r asesiadau risg o ansawdd uchel yn amlinellu gwendidau'r bobl ac yn darparu gwybodaeth ar sut i gadw'r bobl yn ddiogel. Mae system electronig 'IMPACT' y cwmni yn dangos canlyniadau'r bobl yn glir gyda ffotograffau.  Mae'r cofnodion dyddiol yn gyfredol ac yn cael eu defnyddio i fonitro iechyd cyffredinol y bobl lle bo angen. Dywedodd y teuluoedd wrthym eu bod yn rhan o'r broses o adolygu a diweddaru cynlluniau personol. Gwelsom y staff gofal yn rhyngweithio â'r bobl mewn modd parchus a thosturiol iawn. Mae tystiolaeth ddogfennol ar gynlluniau personol y bobl yn dangos eu bod yn cael mynediad at amrywiaeth o weithwyr proffesiynol gofal iechyd gan gynnwys nyrsys arbenigol, meddygon teulu, a deintyddion. Dywedodd gweithiwr iechyd proffesiynol a oedd yn ymweld wrthym nad oes ganddo unrhyw bryderon am y gofal a roddir a'i bod yn "*very good here*".

Mae trefniadau diogel ar waith i storio, archebu a rhoi meddyginiaeth. Mae siartiau'r cofnodion rhoi meddyginiaeth (MAR) yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen a chânt eu cwblhau'n gywir a'u llofnodi pan fydd meddyginiaeth wedi'i rhoi. Gwelsom dystiolaeth fod y staff yn cael hyfforddiant ar roi meddyginiaeth er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i feddu ar sgiliau digonol. Mae cwblhau archwiliadau meddyginiaeth rheolaidd yn sicrhau bod yr arferion yn parhau'n ddiogel ac yn effeithiol.

Gall y bobl wneud y pethau sy'n bwysig iddynt ac sy'n eu gwneud yn hapus. Mae'r cynlluniau personol yn cynnwys dogfennaeth hynod fanwl am ddewisiadau'r bobl a'r hyn sy'n bwysig iddynt. Caiff cyfranogiad mewn gweithgareddau ei gofnodi. Gwelsom dystiolaeth sy'n dangos eu bod yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau y maent yn eu mwynhau. Caiff y bobl eu cefnogi a'u hannog i fynd allan i'r gymuned, cymryd rhan mewn tasgau cadw tŷ a datblygu a chynnal hobïau. Dywedodd perthnasau wrthym "*They go above and beyond most of the time*", "*can't fault them*" a'u bod yn "*they are really good*". Ceir 'Bwrdd Cyflawniadau' yn yr ardal fwyta, lle y mae'r bobl yn cofnodi eu cyflawniadau yn ystod y mis, naill ai'n ysgrifenedig neu'n ddarluniadol. Gwelsom dystiolaeth gref o gyflawniadau yn ystod yr arolygiad.

Mae systemau ar waith i ddiogelu'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae'r staff gofal yn cael hyfforddiant ar ddiogelu, ac mae'r rhai y gwnaethom siarad â nhw yn meddu ar wybodaeth dda am eu cyfrifoldebau a sut i roi gwybod am bryderon a allai fod ganddynt am y bobl y maent yn eu cefnogi. Mae polisi diogelu ar waith sy'n cael ei adolygu yn ôl yr angen. Mae Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid ar waith ac yn gyfredol ar gyfer

pobl nad oes ganddynt y galluedd i wneud penderfyniadau am eu llety, eu gofal a'u cymorth.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn cael gofal mewn amgylchedd diogel. Caiff yr ystafelloedd eu haddasu er mwyn diwallu anghenion unigol y bobl. Mae ardal breifat ar gael i'r bobl fel bod modd iddynt gwrdd ag aelodau o'r teulu a chymryd rhan mewn gweithgareddau unigol. Mae'r ystafelloedd gwely yn helaeth, wedi'u haddurno'n dda ac wedi'u personoli i adlewyrchu chwaeth a diddordebau personol y preswylydd, gydag eitemau fel ornamentau, llenni a deunyddiau, a ffotograffau. Maent wedi'u haddurno yn seiliedig ar lefel yr ysgogiad synhwyraidd yn ôl anghenion/dewisiadau'r bobl. Yn allanol, mae yna ystafell gardd sydd ag ardal synhwyraidd. Mae yna hefyd drampolîn a thrawst cydbwyso mawr y mae'r bobl yn mwynhau eu defnyddio. Mae cyfleusterau golchi dillad yn addas ar gyfer maint y cartref ac mae systemau ar waith i leihau'r risgiau o groesheintio.

Mae amserlen dreigl o wasanaethu a chynnal a chadw cyfleusterau a chyfleustodau ar waith er mwyn sicrhau eu bod parhau i fod yn ddiogel i'w defnyddio ac yn addas at y diben. Caiff y cyfarpar tân ei wirio'n rheolaidd, a chaiff larymau eu profi gan unigolyn cynnal a chadw bob wythnos. Mae gan y bobl eu cynlluniau personol ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng (PEEPs) i'w ddefnyddio rhag ofn y bydd argyfwng. Mae'r cartref wedi'i ddiogelu rhag ymwelwyr heb awdurdod, a cheir llyfr llofnodi wrth gyrraedd ac wrth adael ar gael. Caiff ardaloedd o'r cartref a allai beri risg i iechyd a diogelwch unigolyn, fel yr ystafell feddyginiaeth, eu cadw dan glo.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan y darparwr drefniadau llywodraethu da ar waith er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn rhedeg yn ddidrafferth. Mae yna reolwr ymrwymedig a phrofiadol sy'n gweithio'n agos gyda'r Unigolyn Cyfrifol ac yn teimlo ei fod yn cael ei gefnogi'n llawn ganddo. Gwelsom y tîm rheoli yn cwblhau archwiliadau wythnosol a misol ac yn mynd i'r afael ag unrhyw faterion a godwyd yn brydlon. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd ac yn siarad â'r bobl, eu teuluoedd a'r staff. Defnyddir yr adborth i lywio unrhyw welliannau angenrheidiol i'r gwasanaeth. Cynhelir adolygiadau o ansawdd y gofal o fewn terfynau amser rheoliadol ac maent yn dangos trefniadau goruchwylio a llywodraethu da.

Mae'r gwasanaeth yn gweithredu proses recriwtio ddiogel. Mae'n sicrhau bod staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth yn addas i weithio yn y sector gofal. Gwnaethom edrych ar nifer o ffeiliau personél a gwelsom fod yr holl wiriadau cyn cyflogaeth angenrheidiol wedi cael eu cynnal. Mae'r rhain yn cynnwys gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, hanes cyflogi, a geirdaon gan gyflogwyr blaenorol. Mae rhaglen sefydlu strwythuredig ar gael i gyflogeion newydd yn unol â Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan. Cânt hefyd gyfle i gysgodi aelodau profiadol o'r tîm.

Mae'r staff gofal yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rolau ac yn cael hyfforddiant da i ddiwallu anghenion y bobl y maent eu cefnogi. Roedd gweithwyr gofal y gwnaethom siarad â nhw yn defnyddio geiriau fel *“supportive”, “brilliant”* ac *“approachable”* i ddisgrifio'r rheolwyr. Gwnaethom edrych ar gofnodion mewn perthynas â chymorth ffurfiol a gwelsom fod gweithwyr gofal yn cael eu goruchwylio ac arfarniad blynyddol, fodd bynnag, gellid gwella ar eu cysondeb. Mae hyn yn bwysig am ei fod yn rhoi'r cyfle i'r gweithwyr gofal drafod unrhyw faterion sy'n ymwneud â'u datblygiad a'u gwaith gyda'r rheolwr. Mae'r gwasanaeth yn darparu rhaglen dreigl o hyfforddiant a datblygiad i'r gweithwyr gofal. Mae pob gweithiwr gofal yn cwblhau hyfforddiant craidd y gwasanaeth sy'n berthnasol i anghenion y bobl sy'n byw yn y cartref. Darperir hyfforddiant arbenigol yn ôl yr angen.

Nodir gennym na chafwyd unrhyw gwynion ers yr arolygiad diwethaf. Mae'r rheolwr yn hysbysu'r cyrff rheoleiddio a'r asiantaethau statudol perthnasol yn briodol pan fydd pryderon a digwyddiadau o bwys a allai effeithio ar lesiant yr unigolion sy'n cael gofal. Gwelsom fod y gwasanaeth yn cyfathrebu mewn modd effeithiol, agored a thryloyw.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 23/10/2024